Atodiad B: Datganiad Strategaeth y Grant Datblygu Disgyblion

O 2022-2023 ymlaen, bydd angen i ysgolion gwblhau a chyhoeddi datganiad ar eu strategaeth Grant Datblygu Disgyblion (GDD). Gellir gweld hyn isod.

O 2022-2023 ymlaen, bydd yn ofynnol hefyd i'r consortiwm gyhoeddi datganiad ar ei strategaeth Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer lleoliadau nad ydynt yn cael eu cynnal sy'n darparu addysg gynnar a ariennir. Dylai hyn ddilyn yr un fformat â'r templed i ysgolion isod.

DATGANIAD STRATEGAETH Y GRANT DATBLYGU DISGYBLION

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2022 i 2023.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

*Os yw'ch rhifau yn 5 neu lai, defnyddiwch * yn lle'r dyraniad er mwyn diogelu plant rhag cael eu hadnabod.*

Trosolwg Ysgolion

Manylion	**Data**
Enw'r ysgol:	Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd
Nifer y dysgwyr yn yr ysgol:	719
Cyfran (%) o ddysgwyr sy'n gymwys i'r GDD:	20.1% Bl7-11
Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn:	Medi 2022
Dyddiad y caiff ei adolygu:	Ebrill 2023 / Medi 2023
Awdurdodwyd y datganiad gan:	Meurig Jones
Yn arwain ar y GDD:	Iwan Jones
Llywodraethwr sy'n arwain:	Elin Mannion

Trosolwg Cyllid

Manylion	**Swm**
Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon:	£ 90,850
Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon:	**£ 106,158**

Rhan A: Cynllun Strategaeth

Datganiad o Fwriad

Defnyddir y grant hwn i gefnogi dysgwyr sydd dan anfantais ariannol i fanteisio ar weithgareddau llawn yr ysgol ac i dderbyn unrhyw gefnogaeth ychwanegol i'w cynorthwyo gyda'u dysgu.

Amlinellir y gweithgareddau, staffio ac adnoddau o fewn y Cynllun Datblygu Ysgol.

Mae'r gweithgareddau a chefnogaeth yn cael eu monitro'n rheolaidd a'u tracio er mwyn sicrhau'r defnydd gorau ar gyfer y dysgwyr penodol hyn.

Mae hyn yn sicrhau cydraddoldeb i bawb a bod pob dysgwr yn derbyn cefnogaeth deg a chyson.

Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

Canlyniad a fwriedir	Meini prawf llwyddiant
Gwella darpariaeth a deilliannau ar gyfer ein dysgwyr PYDs yn y medrau Rhifedd.	Gwell canlyniadau Big Maths ar gyfer y dysgwyr PYDs. Gwella canlyniadau Profion Cenedlaethol. Cau'r bwlch PYDs.
Gwella darpariaeth a deilliannau ar gyfer ein dysgwyr PYDs yn y medrau Llythrennedd.	Gwella canlyniadau Profion Cenedlaethol. Gwella pwyntiau cyrhaeddiad Cymraeg. Cau'r bwlch PYDs.
Gwella cyrhaeddiad dysgwyr PYDs yn eu pynciau.	Gwella cyrhaeddiad dysgwyr PYDs. Cau'r bwlch PYDs.
Gwella darpariaeth dysgwyr ar gyfer lles, cefnogaeth emosiynol a chwricwlwm.	Gwella presenoldeb dysgwyr PYDs. Gwella darpariaeth lles emosiynol ac arweiniad i ddysgwyr PYDs. Gwella mynediad dysgwyr PYDs i weithgareddau allgyrsiol. Gwella ymgysylltiad dysgwyr PYDs i'r ysgol ac addysg.

Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i fynd i'r afael â'r heriau a restrir uchod.

Dysgu ac addysgu

Cost wedi'i chyllidebu: £43,229

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Ymyraethau: Rhifedd (£4.7k)	Gwybodaeth / data sydd wedi ein cyrraedd wrth bontio i'r uwchradd. Data Profion Cenedlaethol. Pwyntiau cyrhaeddiad y dysgwyr. Rhaglen Big Maths.
Ymyraethau: Llythrennedd (£4.7k)	Gwybodaeth / data sydd wedi ein cyrraedd wrth bontio i'r uwchradd. Data Profion Cenedlaethol. Pwyntiau cyrhaeddiad y dysgwyr.
Ymyraethau: Cyffredinol (£9.6k)	Adnabod dysgwyr trwy ddefnydd o Classcharts sydd angen ymyrraeth benodol. Cyfeiriadau gan y tîm bugeiliol.
Cefnogaeth mewn gwersi. (£24.3k)	Staff ategol mewn gwersi mewn dosbarthiadau penodol

Ysgolion Cymunedol

Cost wedi'i chyllidebu: £ 0

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
	Ddim yn berthnasol

Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, Iechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)

Cost wedi'i chyllidebu: £62,929

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Uwch swyddog Cefnogaeth arbenigol yn canolbwyntio ar gefnogi lles, diogelu a phresenoldeb (£11.4k)	Edrych ar ddata ysgol gyfan o ran presenoldeb. Delio gyda materion diogelu / lles. Cofnod o gefnogaeth ar systemau'r ysgol.
Tîm Lles a Chynhwysiant gan gynnwys Penaethiaid Blwyddyn (£18.9k)	Adborth gan y tîm bugeiliol. Hysbysu a cynyddu cyfranogiad dysgwyr i weithgareddau allgyrsiol Adnabod yr angen i ymgysylltu gyda dysgwyr PYD trwy fentora. Cofnod o gefnogaeth ar systemau'r ysgol.
Tîm Lles yr ysgol yn darparu cefnogaeth emosiynol (gan gynnwys y defnydd o Thrive ac ELSA) (£24.8k)	Cynnydd yn y nifer o ddysgwyr yn cael eu cyfeirio at y tîm. Anghenion emosiynol dysgwyr PYDs.
Sicrhau fod gan ddysgwyr PYDs fynediad i adnoddau ac offer er mwyn sicrhau eu bod yn ymgysylltu gydag addysg gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. (£7.8k)	Cyswllt / adborth gan adrannau. Cofnod o gefnog aeth ar systemau'r ysgol.

Cyfanswm cost y ceisiadau: £106,158

Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol

Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academaidd 2020 i 2021.

Mae effaith y flwyddyn academaidd flaenorol i'w weld ar gynllun gwella'r ysgol y llynedd.

Rhaglenni a ddarperir yn allanol

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

Rhaglen	Darparwr
Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Mae gwybodaeth am weithgareddau i dargedu dysgwyr PYDs i weld yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r gweithgareddau / ymyraethau hyn yn cydweithio gyda chynlluniau ariannol eraill megis y Cynllun Gwella Addysg (EIG) a chyllideb gyffredinol yr ysgol.